# GREEN GEN TYWI TEIFI

## Cysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau

Ymgynghoriad 5 Mawrth – 16 Ebrill 2025

## FFURFLEN ADBORTH

Mae Green GEN Cymru yn ymgynghori ar gynigion wedi'u diweddaru ar gyfer cysylltiad trydan 132kV newydd i gludo ynni i'r rhwydwaith trydan cenedlaethol. Mae hyn yn rhan o'n cenhadaeth i helpu i ddarparu ynni adnewyddadwy ledled Cymru i'n cartrefi, busnesau a chymunedau.

Bydd cysylltiad arfaethedig Green GEN Tywi Teifi yn cysylltu datblygiadau ynni arfaethedig yng Ngheredigion ag is-orsaf newydd y National Grid yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cysylltiad tua 52km o hyd, sy'n cynnwys peilonau dellt dur a dwy ran o'r gwaith gosod ceblau o dan y ddaear ger Bryn Myrddin a ger Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin.

Ar ôl ystyried yn ofalus yr adborth ar ein hymgynghoriad cyntaf, yn ogystal ag asesiadau technegol ac amgylcheddol pellach, rydyn ni wedi datblygu aliniad llwybr drafft, sy'n dangos lleoliadau arfaethedig y seilwaith sydd ei angen arnom. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n gofyn am eich adborth ar y canlynol:

- Seilwaith arfaethedig sy'n cael ei gynnwys fel rhan o'n haliniad llwybr drafft, gan gynnwys lleoliadau y peilonau a rhannau o'r gwaith gosod ceblau o dan y ddaear.
- Unrhyw wybodaeth neu effeithiau y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion.

Rydyn ni wedi cyhoeddi cyfres o wybodaeth am ein cynigion, ac i'ch helpu i roi adborth. Rydyn ni'n eich annog i ddarllen y deunyddiau hyn cyn llenwi'r ffurflen hon. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan, ynghyd â rhagor o wybodaeth a map rhyngweithiol **www.greengentowyteifi.com**

Rydyn ni'n canolbwyntio ar gyflawni prosiect sy'n gweithio orau i'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn agos at ein cynigion. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd o'n cwmpas.

Rydyn ni'n gwybod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol ar seilwaith newydd, ac rydyn ni'n cydnabod bod gan bobl bryderon am beilonau yn y dirwedd. Mae angen cydbwysedd gofalus er mwyn darparu'r seilwaith sydd ei angen arnom i ychwanegu capasiti grid, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a helpu'r wlad i newid i wresogi a cherbydau trydan.

Mae adborth yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd rydyn ni'n datblygu'r prosiect. Gall gwybodaeth leol ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau a manteision posibl nad ydyn ni efallai wedi'u hystyried yn ein gwaith hyd yma, ac i lywio ein gwaith yn y dyfodol. Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch wrth roi adborth, gan gynnwys rhifau peilonau penodol, os oes modd. Mae'r rhain ar gael ar y map rhyngweithiol ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth wrth lenwi'r ffurflen adborth hon, cysylltwch â'n tîm ar **0800 915 2496** neu anfonwch e-bost at **info@greengentowyteifi.com**

**Cyflwynwch eich adborth erbyn 23:59 ar 16 Ebrill 2025.**

GREEN GEN CYMRU

## Gwybodaeth amdanoch chi

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Teitl: | Enw: | | | | |
| Grŵp oedran: | ☐ Dan 18 oed | ☐ 18 - 34 | ☐ 35 – 50 | ☐ 51 – 65 | ☐ Dros 65 oed |

Cyfeiriad:

Cod Post:

Cyfeiriad e-bost:

Ydych chi eisiau derbyn diweddariadau e-bost am y prosiect? ☐ Oes ☐ Nac oes

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, pa sefydliad:

Ydych chi'n berchen ar dir neu'n meddiannu tir o fewn ffin y prosiect? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, a yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os nad ydym wedi cysylltu â chi, rhowch fanylion y tir hwn, gan gynnwys y cyfeiriad, os yw'n wahanol i'r uchod, er mwyn i ni allu cysylltu â chi.

GREEN GEN CYMRU



## Cyflwyno adborth

Mae'r adborth rydyn ni wedi'i gael hyd yma gan bobl leol, perchnogion tir sefydliadau arbenigol wedi bod yn bwysig wrth i ni ddatblygu ein cynigion a'n hasesiadau.

Gallwch ddylanwadu ar ein cynigion o hyd, a hoffem gael eich adborth er mwyn i ni allu parhau i edrych ar ffyrdd o gadw'r effeithiau mor isel â phosibl. Dywedwch wrthym a oes unrhyw newidiadau y credwch y gallwn eu gwneud i'w gwella neu i leihau effeithiau ac, yn bwysicaf oll, pam.

Rydyn ni'n gofyn am adborth ar y canlynol:

- Ein haliniad llwybr drafft, gan gynnwys lleoliadau arfaethedig y peilonau a rhannau o'r gwaith gosod ceblau o dan y ddaear.
- Unrhyw wybodaeth neu effeithiau y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion.

Dim ond adborth am ein cynigion ni y gallwn ei ystyried, ac nid themâu ehangach fel cynhyrchu ynni na pholisïau'r llywodraeth.

Rydyn ni wedi trefnu'r aliniad llwybr drafft yn bum adran. Mae'r ffurflen adborth hon wedi'i threfnu'n adrannau tebyg, ac mae lle hefyd i gyflwyno adborth ehangach sy'n benodol i'r prosiect cyffredinol.

Po fwyaf o fanylion y gallwch eu darparu, y gorau y gallwn ddeall effeithiau posibl ein gwaith. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

## Mae sawl ffordd o ddarparu adborth ar y prosiect

Llenwi'r ffurflen adborth ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**

Anfon e-bost at **info@greengentowyteifi.com**

Copi caled o'r ffurflen adborth, sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori neu ar gais

Anfon adborth ysgrifenedig at **RHADBOST GREEN GEN CYMRU TT**

## ADRANNAU Y LLWYBR

**Rydyn ni wedi trefnu ein haliniad llwybr drafft yn bum adran i roi cyfle i gael adborth manylach.**

I gael rhagor o wybodaeth am bob adran o'r llwybr, edrychwch ar ein llyfryn ymgynghori statudol.

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| **Lan Fawr i Lanbedr Pont Steffan** | **Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni** | **Llanllwni i Alltwalis** | **Alltwalis i Rydargaeau** | **Rhydargaeau i Landyfaelog** |

**C1** **Adran 2: Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni. Oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynigion ar gyfer pob un o'r adrannau?**

Os oes gennych chi adborth ynghylch lleoliadau arfaethedig peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif cyfatebol y peilon (fel yr amlinellir ar ein map rhyngweithiol o aliniad y llwybr) lle bo hynny'n bosibl.

**C2** **Adran 2: Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni. Oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynigion ar gyfer pob un o'r adrannau?**

Os oes gennych chi adborth ynghylch lleoliadau arfaethedig peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif cyfatebol y peilon (fel yr amlinellir ar ein map rhyngweithiol o aliniad y llwybr) lle bo hynny'n bosibl.



**C3** **Adran 3: Llanllwni i Alltwalis. Oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynigion ar gyfer pob un o'r adrannau?**

Os oes gennych chi adborth ynghylch lleoliadau arfaethedig peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif cyfatebol y peilon (fel yr amlinellir ar ein map rhyngweithiol o aliniad y llwybr) lle bo hynny'n bosibl.

**C4** **Adran 4: Alltwalis i Rydargaeau Oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynigion ar gyfer pob un o'r adrannau?**

Os oes gennych chi adborth ynghylch lleoliadau arfaethedig peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif cyfatebol y peilon (fel yr amlinellir ar ein map rhyngweithiol o aliniad y llwybr) lle bo hynny'n bosibl.

**C5** **Adran 5: Rhydargaeau i Landyfaelog Oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynigion ar gyfer pob un o'r adrannau?**

Os oes gennych chi adborth ynghylch lleoliadau arfaethedig peilonau yn yr ardal hon, rhowch rif cyfatebol y peilon (fel yr amlinellir ar ein map rhyngweithiol o aliniad y llwybr) lle bo hynny'n bosibl.

## EICH SYLWADAU AR EIN CYNIGION

**C6** **Oes unrhyw wybodaeth arall y dylen ni ei hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion nad ydych wedi'u cynnwys uchod? Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch chi.**



## GWYBODAETH AM YR YMGYNGHORIAD

**C7** **Sut gwnaethoch chi glywed am yr ymgynghoriad? (ticiwch fel bo'n briodol)**

- ☐ Gwybodaeth yn y post
- ☐ Newyddion neu sylw yn y cyfryngau
- ☐ Cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi clywed gan rywun arall
- ☐ Man gwybodaeth leol
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**C8** **Oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich profiad o'r ymgynghoriad?**

## Hysbysiad preifatrwydd

Mae **Green GEN Cymru** (cwmni o fewn Grŵp Windward Energy) wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth o'r fath, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ei defnyddio yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR).

**Sut bydd Green GEN Cymru yn defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu amdanoch chi?** Byddwn yn defnyddio eich data personol a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn at ein dibenion busnes cyfreithlon, gan gynnwys:

- Dadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad
- Cynhyrchu Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio, ar sail ein dadansoddiad o'r ymatebion (ni fydd unigolion yn cael eu henwi yn yr Adroddiad)
- Ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymgynghoriad ac am ddatblygiadau eraill os ydych wedi dewis cael y diweddariadau hyn
- Cadw cofnodion cyfredol o'n gohebiaeth ag unigolion a sefydliadau

**Bydd unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei chynnwys yn y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan (neu ar gael i) y derbynwyr canlynol i gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a gawn:**

- Green GEN Cymru
- PEDW (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Green GEN Tywi Teifi – bydd unrhyw fanylion a gyhoeddir fel rhan o'r broses hon yn ddienw)
- Gweinidogion Cymru
- Cynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys ein cynghorwyr cyfreithiol a chwmnïau ac ymgynghorwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan mewn cysylltiad â Phrosiect Green GEN Tywi Teifi.

**Pa hawliau sydd gen i dros fy nata personol?** O dan delerau GDPR y DU, mae gennych hawliau penodol ynghylch sut mae Green GEN Cymru yn cadw ac yn defnyddio eich data personol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein datganiad preifatrwydd data llawn yn **www.greengencymru.com/privacy-policy**

## Cysylltu

**0800 915 2496**

**info@ greengentowyteifi.com**

**FREEPOST GREEN GEN CYMRU TT**

Rydym wedi defnyddio ffynonellau cynaliadwy ar gyfer cynhyrchu'r ffurflen adborth hon.

GREEN GEN CYMRU